Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Busy B's**

**Parc Busnes Treborth**
**Adeiladau'r Orsaf**
**Bangor**
**LL57 2NX**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Busy B's

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Justine Burley |
| Lleoedd cofrestredig | 43 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mynegi eu barn yn hyderus. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn dysgu sut i ddod yn fwy annibynnol. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd ar gyfer dewis rhydd a chwarae yn yr awyr agored yn fwy cyfyngedig i rai o'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i reoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y person cofrestredig yn gyfredol ac y goruchwylir pob ystafell gan aelod o staff cymwysedig. Mae cydberthnasau da wedi'u meithrin â'r rhieni, a chaiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol, gan sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gwneud penderfyniadau priodol ynglŷn â sut maen nhw'n treulio eu hamser. Maent yn symud o amgylch y gweithgareddau sydd ar gael yn rhydd ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a siarad â'r staff, gan wybod y byddent yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ac yn ei werthfawrogi. Er enghraifft, maent yn hyderus i ofyn am bryd o fwyd amgen os nad ydynt yn hoff o'r hyn sy'n cael ei gynnig yn ystod amser cinio.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a chânt ofal gan y staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cynnes â nhw. Maent yn teimlo'n hyderus a diogel yn eu hamgylchedd ac yn gyfforddus yn gofyn i'r staff roi tawelwch meddwl neu gysur iddynt pan fydd angen. Er enghraifft, drwy awgrymu eu bod am gael eu cysuro pan fyddant yn ansicr ynghylch pobl neu sefyllfaoedd newydd.

Mae'r plant yn awyddus i gynnwys eu ffrindiau a'r staff yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, tynnodd y plant sylw aelod o'r staff at bry cop y daethant o hyd iddo, a wnaeth helpu ac annog y plant i edrych beth arall roeddent yn gallu dod o hyd iddo. Mae'r plant yn frwd dros rannu eu cyflawniadau, gan wybod y byddent yn cael eu gwerthfawrogi ac y byddai'r staff yn dathlu'r cyflawniadau hyn. Er enghraifft, roedd y plant yn gyffrous wrth ddangos eu gwaith celf gorffenedig i'r staff gan wenu wrth gael eu canmol am eu hymdrechion.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser cinio ac yn ystod amser chwarae, gan wenu a chwerthin yn aml wrth iddynt wneud hynny. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, gan rannu teganau, aros eu tro a chydweithio i gwblhau tasgau'n dda. Er enghraifft, pan roeddent yn reidio'r beiciau o amgylch yr ardal chwarae awyr agored gwnaeth y plant aros eu tro mewn llinell i reidio'r beiciau i lawr y bryn, gan ddangos diddordeb yng nghyflymder eu ffrindiau wrth iddynt gymryd eu tro ar y beiciau. Mwynha'r plant eu chwarae ac maent yn canolbwyntio'n dda ar dasgau. Er enghraifft, cafodd y babanod hwyl, gan ddangos sgiliau canolbwyntio da wrth ludo gwlân cotwm i greu gludwaith.

Caiff y plant ddigonedd o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant iau yn dysgu sut i fwydo eu hunain yn ogystal â sut i fod yn fwy annibynnol wrth sychu eu trwynau a golchi eu dwylo.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach, ac maent yn eu dilyn yn effeithiol. Mae gan y staff wybodaeth gadarn am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae nifer o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a chaiff unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n dda a'u llofnodi gan y rhieni. Caiff adolygiad misol o'r damweiniau ei gwblhau, gan sicrhau y gellir cymryd unrhyw gamau gweithredu er mwyn lleihau'r risg o anaf i'r plant yn unol â hynny. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac maent yn cadw cofnodion manwl, gan sicrhau bod pob aelod o'r staff a phob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn o adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed digon; maent yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar eu poteli dŵr drwy gydol y dydd ac yn darparu prydau a byrbrydau iach, megis risoto llysiau, ffrwythau, craceri a grawnfwyd. Mae'r staff yn rhoi gweithdrefnau hylendid effeithiol ar waith. Er enghraifft, maent yn dilyn arferion gorau cyfredol wrth newid cewynnau'r plant ac yn sicrhau y caiff y byrddau eu glanhau'n drwyadl gyda chwistrell gwrthfacterol rhwng gweithgareddau. Maent hefyd yn sicrhau bod y plant yn glanhau eu dwylo fel y bo angen er mwyn lleihau'r risg o groesheintio.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt pan fydd eu hangen arnynt. Maent yn delio ag unrhyw fân anghytundebau neu ymddygiad amhriodol yn gadarnhaol. Er enghraifft, drwy gefnogi ac atgoffa'r plant sut i rannu a siarad yn garedig pan fydd unrhyw fân anghytundebau rhyngddynt. Mae'r staff yn defnyddio canmoliaeth yn aml drwy gydol y dydd i annog y plant i ryngweithio ac ymddwyn yn gadarnhaol.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau difyr y bydd y plant yn eu mwynhau. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau a threfnir gweithgareddau yn unol â'u diddordebau. Caiff cofnodion o ddatblygiad y plant eu cadw hefyd, lle y mae'r staff yn casglu lluniau ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn ogystal â chofnodi nodiadau arsylwi a samplau o waith y plant. Cânt eu rhannu â rhieni yn rheolaidd. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Er enghraifft, mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol ar drin adweithiau alergaidd difrifol fel eu bod yn gallu gofalu am unrhyw blentyn sydd ag alergeddau yn effeithiol.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i ddarparu amgylchedd diogel i'r plant. Mae gan y gwasanaeth asesiadau risg ysgrifenedig manwl ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant. Caiff asesiadau risg unigol eu cwblhau ar gyfer ymweliadau â'r ardal leol a gweithgareddau penodol hefyd. Caiff pob asesiad risg ei adolygu'n rheolaidd fel y gall y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fonitro a rheoli unrhyw beryglon posibl yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd addas i'r plant chwarae a dysgu. Maent yn darparu detholiad priodol o deganau ac adnoddau i'r plant, a gaiff eu storio mewn man lle y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Er gall y plant yn yr ystafell plant bach gael gafael ar y gweithgareddau a gaiff eu gosod gan y staff, mae nifer y teganau a'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn hwylus yn fwy cyfyngedig. Golyga hyn eu bod yn cael llai o gyfleoedd i ddewis sut y maent am dreulio eu hamser ac i ddilyn eu diddordebau.

Mae'r staff yn arddangos samplau o waith y plant ar yr hysbysfyrddau, gan roi ymdeimlad o berthyn i'r plant a chyfle iddynt ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Caiff yr holl ardaloedd eu cynnal a'u cadw'n addas, ac maent yn groesawgar i'r plant. Gall y plant ddefnyddio'r ardal awyr agored addas sy'n rhoi cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol drwy ddefnyddio cyfarpar dringo neu drwy chwarae ar y teganau reidio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r plant bach a'r plant hŷn dreulio amser yn yr ardal hon, sy'n golygu y gallant ddatblygu eu sgiliau corfforol a threulio amser yn yr awyr iach. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i'r babanod dreulio amser yn yr awyr agored yn fwy cyfyngedig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth addas o deganau ac adnoddau i'r plant. Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i hybu annibyniaeth y plant, gan gynnwys stepiau a thoiledau a sinciau lefel isel. Darperir rhai cyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Er enghraifft, cafodd y plant gyfleoedd i gwblhau gludweithiau neu waith celf gan ddefnyddio deunyddiau naturiol a threuliodd y plant bach amser yn chwarae yn y pwll tywod. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol yn yr amgylchedd dan do ac yn yr amgylchedd awyr agored. Mae'r nifer o deganau ac adnoddau sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac amlddiwylliannaeth hefyd yn gyfyngedig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u bod yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Mae polisïau'r lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol a chânt eu hadolygu'n flynyddol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Maent yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at y rhieni a'r staff. Caiff adborth ei gasglu hefyd gan y plant drwy siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn ddyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi llunio adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu pa welliannau sydd eisoes wedi cael eu gwneud a'r gwelliannau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ac maent yn eu cefnogi er mwyn iddynt allu cyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent wedi sicrhau bod ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nid oedd y person cofrestredig yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaeth y person cofrestredig unioni'r mater hwn ar unwaith ac mae bellach wedi gwneud cais am dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd. Nodwyd hyn fel maes i'w wella. Mae'r cofnodion ysgrifenedig yn dangos y caiff cyfarfodydd staff, cyfarfodydd goruchwylio staff ac arfarniadau blynyddol eu cynnal yn rheolaidd. Cadarnhawyd hyn hefyd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd y gallant fynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau sydd ganddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cymarebau staff yn cael eu bodloni'n ddyddiol, gan gynnwys yn ystod amseroedd egwyl. Fodd bynnag, nid oedd pob ystafell yn cael ei goruchwylio gan aelod o staff cymwysedig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a gasglwyd gan y rhieni a oedd yn nodi anghenion penodol y plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Caiff taflenni cyswllt dyddiol eu cwblhau ar gyfer pob plentyn a'u rhannu â'r rhieni, ac felly maent yn cael eu hysbysu'n llawn am amser eu plentyn yn y lleoliad. Nododd adborth a gafwyd gan y rhieni eu bod yn hapus gyda'r lleoliad a'i fod yn bodloni anghenion y plant a'u teuluoedd.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Dylid adolygu'r ffordd y caiff staff cymwysedig eu defnyddio er mwyn sicrhau bod aelod o staff cymwysedig yn bresennol i oruchwylio pob ystafell chwarae bob amser.

A2. Dylai'r darparwr sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol, deunyddiau synhwyraidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu.

A3. Dylai'r darparwr sicrhau bod y plant yn yr ystafell plant bach yn cael mwy o gyfleoedd i ddewis gweithgareddau yn rhydd/annibynnol a dilyn eu diddordebau.

A4. Dylai’r darparwr sicrhau y caiff y babanod a'r plant bach fwy o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Mae angen i'r person cofrestredig ddiweddaru ei dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd er mwyn dangos ei fod yn parhau i fod yn addas i ddarparu gofal i blant. | Newydd |
| 28 (1) (a) | Nid oedd pob ffeil staff wedi cael ei chwblhau. Roedd disgrifiadau swydd ar goll o bum ffeil (edrychwyd ar bump), roedd hanes cyflogaeth llawn ar goll o ddwy ffeil, pedwar geirda ar goll o ffeiliau ar wahân a datganiad iechyd ar goll o ddwy ffeil. | Cyflawnwyd |
| 16 (1) | Rheoliad 16 - adolygu ansawdd y gofal. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sefydlu a chynnal system i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i blant. | Cyflawnwyd |
| 31 (1) | Rheoliad 31 - Darparu gwybodaeth. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig roi gwybod i ni am newidiadau i'r staff 'cyn i'r digwyddiad fynd rhagddo' neu o fewn 14 diwrnod. | Cyflawnwyd |
| 25 (c) | Rheoliad 25(c) - Peryglon a diogelwch. Caiff risgiau diangen i iechyd neu ddiogelwch plant perthnasol eu nodi a'u dileu i'r graddau y mae hynny'n bosibl. | Cyflawnwyd |
| 30 (1) (b) Atod3.06 | Rheoliad 30. Cadw cofnodion. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig gadw cofnodion presenoldeb dyddiol o'r staff sy'n gofalu am blant | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/03/2023